Dŵr Cymru
Welsh Water

# Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr

2020-21



dwrcymru.com

PAB 0125

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 4
2. Sut i gysylltu â ni 5
3. Sut i dalu 5
4. Cwynion 6
5. Taliadau Amrywiol Gwasanaethau i Ddatblygwyr 7
6. Carthffosiaeth 9
7. Cysylltiadau Newydd – Dŵr 11
8. Taliadau seilwaith 24
9. Canllaw i luosyddion perthnasol 25
10. Unedau llwytho 26


**Y stori nid er elw**
Dysgwch ble y caiff eich arian ei fuddsoddi yn **dwrcymru.com/gwahanol**

# Diffiniad o dermau

Defnyddir y diffiniadau isod yn y rhestr hon, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

**'Ailddatblygiad'** – safle lle newidir y cysylltiadau neu'r defnydd ohonynt. Mae ailddatblygiad yn cynnwys, er enghraifft, adeiladu tai newydd yn lle hen dai, troi tŷ mawr yn fflatiau, cyfuno dau eiddo neu fwy yn un, addasu ffatri i weithredu fel swyddfeydd, ymestyn ffatri neu swyddfeydd, a newid cyflenwad dŵr adeilad i gyflenwad preswyl.

**'Cwmni'** – Dŵr Cymru Cyfyngedig yn masnachu fel Dŵr Cymru Welsh Water.

**'Cwmni Bilio'** – cwmni heblaw am Dŵr Cymru Cyfyngedig sy'n cyflenwi dŵr i unrhyw safle ac sy'n gyfrifol am gasglu taliadau carthffosiaeth mewn perthynas â'r safle hwnnw ar ran Dŵr Cymru Cyfyngedig.

**'Cysylltiad'** – cysylltiad a reoleiddir gan y Ddeddf a deddfwriaeth berthnasol arall, sy'n cyflenwi gwasanaethau'r Cwmni i'r cwsmer.

**'Deddf'** – Deddf Diwydiant Dŵr 1991 ac unrhyw ddiwygiadau iddi.

**'Dibenion domestig'** – yn gyffredinol, cyflenwad at ddibenion yfed, golchi, coginio, gwres canolog a glanweithdra, fel y'i diffinnir yn Adran 218 o'r Ddeddf.

**'Dibreswyl'** – safle/cwsmer heblaw am safle/cwsmer preswyl. Gweler uchod am ddiffiniad o safle preswyl.

**'Eiddo'** – adeilad parhaol, ei dir ac atodion neu unrhyw gyfleuster lle y darperir cyflenwad dŵr. Mae adeilad yn cynnwys tŷ, rhan o adeilad y gellir ei meddiannu ar wahân.

**'Pibell gyflenwi'** – unrhyw ran o bibell wasanaeth nad yw ac na fu'n ofynnol i'r Cwmni ei gosod o dan Adrannau 45 a 46 o'r Ddeddf.

**'Pibell wasanaeth'** – y bibell (neu ran o'r bibell) sy'n cyflenwi dŵr o brif bibell y Cwmni i unrhyw eiddo, fel y'i diffinnir yn Adran 219 o'r Ddeddf.

**'Tâl seilwaith'** – tâl seilwaith dŵr neu dâl seilwaith carthffosiaeth.

**'Treth ar Werth'** – treth ar werth sy'n daladwy o dan Ddeddf Treth ar Werth 1994 neu unrhyw dreth neu ddyletswydd yn ei lle.

**'Tŷ'** – unrhyw adeilad neu ran o adeilad y mae pobl yn byw ynddo fel tŷ annedd, p'un a yw'n dŷ annedd preifat neu beidio, neu os yw'n wag, sy'n debygol o gael ei ddefnyddio felly. (Fel y'i disgrifir yn Adran 219 o'r Ddeddf). Yn arbennig, mae tŷ yn cynnwys fflat ond nid carafán na chartref symudol sydd wedi'i leoli dros dro.

# 1. Cyflwyniad

Caiff y taliadau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen rhestr taliadau hon eu codi gan Dŵr Cymru Cyfyngedig (y Cwmni). Mae'r rhain yn atodol i'r taliadau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Taliadau'r Cwmni a rhestrau taliadau eraill a gyhoeddir gan y Cwmni.


Bydd y taliadau'n gymwys o 1 Ebrill 2020 nes y byddant yn cael eu dirymu, eu diwygio, eu disodli neu eu newid mewn unrhyw ffordd arall gan y Cwmni.

Ar gyfer unrhyw wasanaeth ychwanegol a ddarperir gan y Cwmni, y codir tâl amdano (e.e. darparu cyfleuster neu sicrhau bod hawl ar gael), gall y Cwmni godi taliadau y mae'n eu hystyried yn briodol mewn perthynas â chost darparu'r gwasanaeth. Efallai y bydd angen talu taliadau o'r fath ymlaen llaw.

Mae'r Cwmni'n gweithredu yn yr ardal a ddangosir ar y map isod.

Mae'r cwmni yn cynhyrchu nifer o gyhoeddiadau gwybodaeth i gwsmeriaid am y gwasanaethau a ddarperir ganddo. Ceir manylion amdanynt ar ein gwefan yn **dwrcymru.com**

Ers mis Ebrill 2018 mae cwmnïau dŵr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr wedi gorfod codi tâl am gysylltiadau newydd (prif bibellau a gwasanaethau) yn unol â'r rheolau codi tâl diwygiedig a bennir gan OFWAT. Nid yw'r newid hwn yn berthnasol i Dŵr Cymru ar hyn o bryd, gan gynnwys yr ardaloedd hynny yn Lloegr yn ein hardal weithredu.



## 2. Sut i gysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch unrhyw wasanaethau a restrir yn y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â:

Gwasanaethau i Ddatblygwyr
Dŵr Cymru Welsh Water
Blwch Swyddfa'r Post 3146
Linea
Fortran Road
Caerdydd
CF30 0EH

Ffôn: 0800 917 2652

E-bost: developer.services@dwrcymru.com

Gwefan: dwrcymru.com/developer-services

## 3. Sut i dalu

**Cardiau Credyd/Debyd**
Gall cwsmeriaid dalu drwy ddefnyddio eu cardiau credyd/debyd, unrhyw bryd, naill ai ar-lein ar y wefan uchod neu drwy ffonio ein llinell dalu awtomataidd 24 awr ar 0800 917 2652. Gall cwsmeriaid dalu gan ddefnyddio'r rhan fwyaf o gardiau credyd/debyd. Sicrhewch fod eich rhif cyfeirnod wrth law.

**Talu drwy Siec**
Gall cwsmeriaid dalu drwy siec. Mae'n rhaid i gyfeirnod y dyfynbris gael ei ysgrifennu ar gefn y siec, a dylid nodi 'Cyfrif y Talai'. Dylid gwneud sieciau yn daladwy i Dŵr Cymru Cyf a'u hanfon i:

Gwasanaethau i Ddatblygwyr
Dŵr Cymru Welsh Water
Blwch Swyddfa'r Post 3146
Linea
Fortran Road
Caerdydd
CF30 0EH

# 4. Cwynion

Ein nod yw sicrhau ein bod yn gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf, bob tro – ond gwyddom y gall pethau fynd o chwith o bryd i'w gilydd. Ein ffordd ddewisol o ddelio â chwynion yw dros y ffôn, gan mai hon yw'r ffordd gyflymaf o'u datrys. Gall cwsmeriaid ein ffonio ar y rhif canlynol **0800 917 2652**.

Os ydych wedi ein ffonio a'ch bod am wneud cwyn o hyd, gallwch gysylltu drwy e-bost neu lythyr. Er mwyn sicrhau bod eich cwyn yn cyrraedd y tîm cywir, defnyddiwch y cyfeiriad ar dudalen 4. Os na fyddwch yn fodlon ar yr ymateb i'ch cwyn, neu'r ffordd y cafodd eich cwyn ei thrin, gallwch ysgrifennu atom i ofyn i un o'n Cyfarwyddwr gynnal adolygiad. I wneud hyn, cysylltwch â ni eto gan ddefnyddio'r cyfeiriad ar dudalen 4.

Os byddwn wedi adolygu eich cwyn yn llawn a'ch bod yn credu y gallem fod wedi gwneud mwy, gallwch ofyn i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr adolygu eich achos. Mae hwn yn gorff annibynnol sy'n cynrychioli buddiannau cwsmeriaid ac yn ymchwilio i gwynion. Gallwch fynd i'w wefan **ccwater.org.uk**, ei ffonio ar **0300 034 3333**, neu ysgrifennu ato yn:

Consumer Council for Water
c/o 1st Floor,
Victoria Square House,
Victoria Square,
Birmingham,
B2 4AJ

Dim ond cwynion sydd eisoes wedi'u cyfeirio at y Cwmni y bydd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn ymchwilio iddynt fel arfer. Wrth ysgrifennu ato, byddai'n ddefnyddiol amgáu copi o'r ymateb a gawsoch gan y Cwmni.

Os yw eich cwyn wedi'i hadolygu'n llawn gennym a gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, a'ch bod yn anfodlon o hyd, gallwch gysylltu â WATRS. Mae WATRS yn wasanaeth dyfarnu annibynnol, am ddim, sy'n adolygu anghydfodau rhwng cwsmeriaid a chwmnïau lle nad yw'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr wedi gallu eu datrys a phenderfynu na all wneud rhagor. Nodir ei fanylion cyswllt isod; gallwch wneud cais ar ei wefan neu ofyn iddo anfon ffurflen gais atoch.

WATRS
International Dispute Resolution Centre
70 Fleet Street, London, EC4Y 1EU

0207 520 3801
watrs.org

Gellir cyfeirio rhai cwynion at Ofwat o dan ddarpariaethau Deddf Diwydiant Dŵr 1991. Ei fanylion cyswllt yw:

**The Water Services Regulation Authority (OFWAT)**
**Centre City Tower**
**7 Hill Street**
**Birmingham**
**B5 4UA**

**Ffôn:** 0121 644 7500

**E-bost:** mailbox@ofwat.gsi.gov.uk

Dylai unrhyw ohebiaeth ag Ofwat gynnwys copïau o ohebiaeth gyda'r Cwmni a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

# 5. Taliadau Amrywiol Gwasanaethau i Ddatblygwyr

| Rhag-gynllunio | | Nodiadau |
|---|---|---|
| Ymateb rhag-gynllunio ysgrifenedig | £86.00 + TAW ar gyfer dŵr a dŵr gwastraff. Bydd ein gwasanaeth rhag-gynllunio yn rhoi gwybodaeth i chi ynglŷn â ph'un a all ein hasedau roi cymorth i'ch datblygiad. Er mwyn darparu'r gwasanaeth hwn, bydd angen unrhyw wybodaeth berthnasol arnom am eich datblygiad, gan gynnwys unrhyw strategaethau draenio arfaethedig. | Cyfeiriwch at yr adran Gwasanaethau i Ddatblygwyr ar ein gwefan am y wybodaeth a roddir fel rhan o'r gwasanaeth hwn. |

| **Gwerthiannau Cynllun** (Y tu allan i gwmpas TAW) | | Nodiadau |
|---|---|---|
| Cynllun Dŵr (A3/A4) | £8.00 fesul cynllun | Graddfa 1:1250 neu 1:2500. Noder mai dim ond ar gyfer eiddo yn ein hardal rydym yn darparu'r gwasanaeth hwn. |
| Cynllun Carthffosiaeth (A3/A4) | £8.00 fesul cynllun | |
| Cynllun Dŵr (A1/A0) | £8.00 fesul cynllun | |
| Cynllun Carthffosiaeth (A1/A0) | £8.00 fesul cynllun | |

Gallwch hefyd weld y cofnodion hyn am ddim yn ein swyddfeydd dynodedig. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Gwasanaethau i Ddatblygwyr.

| Chwiliadau Draenio a Dŵr | | Nodiadau |
|---|---|---|
| Chwiliad draenio a dŵr at ddibenion trawsgludo eiddo | £8.00 + TAW | Noder mai dim ond ar gyfer eiddo yn ein hardal rydym yn darparu'r gwasanaeth hwn. Codir TAW lle y bo'n berthnasol. |

| Arolwg o Leoliad yr Ased | | Nodiadau |
|---|---|---|
| **Gwastraff** | | |
| Cwblhau arolwg o leoliad ac arolwg teledu cylch cyfyng (CCTV) er mwyn nodi safle, dyfnder, maint a chyflwr y garthffos gyhoeddus, berthnasol (carthffosydd cyhoeddus, perthnasol) o fewn ffin eiddo preswyl safonol a lle mae'r garthffos yn llai na 225mm mewn diamedr. | £165.00 + TAW | |
| Cwblhau arolwg o leoliad ac arolwg teledu cylch cyfyng (CCTV) er mwyn nodi safle, dyfnder, maint a chyflwr bras y garthffos gyhoeddus, berthnasol (carthffosydd cyhoeddus, perthnasol) o fewn ffin eiddo preswyl safonol a lle mae'r garthffos yn fwy na 225mm mewn diamedr neu ar gyfer datblygiadau preswyl mawr neu fasnachol. | Pris ar gais + TAW | Oherwydd y technegau arolygu arbenigol sydd eu hangen ar gyfer pibelli mawr iawn, caiff pob safle ei asesu'n unigol. |
| Ymchwiliadau Twll Prawf | Pris ar gais + TAW | Lle y bo angen gwirio data arolwg neu bennu dyfnder pibell yn gywir, efallai y bydd angen tyllau prawf. |
| **Dŵr** | | |
| Cynnal ymweliad â'r safle ac arolwg uwchlaw lefel y ddaear o'r brif bibell ddŵr i ddarparu lleoliad dangosol. | Dim tâl | Noder bod ein gallu i olrhain prif bibell ddŵr yn dibynnu ar ddeunydd y bibell. Yn gyffredinol, mae olion o'r fath ond yn effeithiol ar gyfer pibelli metalaidd. |
| Cynnal arolwg mewnol o'r brif bibell ddŵr at ddibenion lleoliad. | Pris ar gais + TAW | Oherwydd y technegau arolygu arbenigol sydd eu hangen, caiff pob safle ei asesu'n unigol. |
| Ymchwiliadau Twll Prawf. | Pris ar gais + TAW | Lle y bo angen gwirio data arolwg neu bennu dyfnder pibell yn gywir, efallai y bydd angen tyllau prawf. |
| Ffi Goruchwylio | Pris ar gais + TAW | Lle y caniateir i chi gynnal eich gwaith ymchwil eich hun, efallai y bydd angen i ni oruchwylio ar y safle. |

Noder nad ydym ond yn darparu'r gwasanaethau hyn ar gyfer asedau yn ein hardaloedd gweithredu ein hunain, sy'n wahanol ar gyfer ein rhwydweithiau dŵr a charthffosiaeth. Gweler y map ar flaen y llyfryn hwn am fanylion pellach.

# 6. Carthffosiaeth

## **Cysylltiadau Newydd â Charthffosydd - goruchwylio cysylltiadau carthffosiaeth** (Y tu allan i gwmpas TAW)

| | |
|---|---|
| Yn ystod oriau swyddfa (dydd Llun i ddydd Gwener: 8.30am-5.00pm) | £169.00 |
| Y tu allan i oriau swyddfa | Pris ar Gais |

## **Cytundeb i Adeiladu Dros neu ar bwys carthffos gyhoeddus/draen ochrol – Hyd at 225mm mewn Diamedr** (Y tu allan i gwmpas TAW)

Cyfeiriwch at y ddogfen ganllaw ar-lein sydd i'w gweld yn yr adran Gwasanaethau i Ddatblygwyr ar wefan Dŵr Cymru, er mwyn eich helpu i nodi pa ffi sy'n berthnasol.

| | |
|---|---|
| Caniatâd drwy lythyr – dim addasiadau i'n rhwydwaith | £93.00 |
| Caniatâd drwy lythyr – yn dilyn cwblhau addasiadau i'n rhwydwaith | £481.00 |
| Caniatâd drwy Gytundeb Cyfreithiol (gydag addasiadau neu hebddynt) | £587.00 |
| Cytundeb Diogelu Asedau Pwrpasol (Asedau dros 225 mewn diamedr) | Pris ar gais |

## **Cytundeb Mabwysiadu Carthffosydd ac eithrio draeniau ochrol** (Y tu allan i gwmpas TAW)

**Fetio a goruchwylio technegol**

| | |
|---|---|
| Cytundeb mabwysiadu carthffosydd rhwng 2 a 5 Eiddo | £591.00 |
| Cytundeb mabwysiadu carthffosydd rhwng 6 a 25 Eiddo | £934.00 |
| Cytundeb mabwysiadu carthffosydd dros 25 Eiddo | £1,263.00 |

## **Cytundeb Mabwysiadu Carthffosydd ac eithrio draeniau ochrol yn cynnwys gorsaf bwmpio** (Y tu allan i gwmpas TAW)

**Gwaith fetio, goruchwylio a chomisiynu technegol gan gynnwys gorsaf bwmpio**

| | |
|---|---|
| Cytundeb mabwysiadu carthffosydd rhwng 2 a 5 Eiddo | £2,227.00 |
| Cytundeb mabwysiadu carthffosydd rhwng 6 a 25 Eiddo | £2,570.00 |
| Cytundeb mabwysiadu Carthffosydd dros 25 Eiddo | £2,899.00 |

## **Cytundeb mabwysiadu draeniau ochrol** (Y tu allan i gwmpas TAW)

| | |
|---|---|
| Mabwysiadu draeniau ochrol | £418.00 |
| Mabwysiadu draeniau ochrol gan gynnwys comisiynu gorsaf bwmpio | £2,054.00 |
| Os ydym yn cael sawl cyflwyniad diwygiedig neu rannol dechnegol yn eich ceisiadau, neu os bydd angen cynnal nifer ormodol o ymweliadau â'r safle o ganlyniad i grefftwaith gwael, byddwn yn ceisio adennill ein costau ychwanegol oddi wrthych cyn cwblhau'r broses. | |

## **Dargyfeirio/Addasu Carthffosydd neu Ddraeniau Ochrol gan drydydd parti lle y caniateir hynny** (Y tu allan i gwmpas TAW)

| | |
|---|---|
| Fetio a Goruchwylio'r Dargyfeiriad yn Dechnegol | 2.5% o'r gost amcangyfrifedig – isafswm tâl o £452.00 |
| Cwblhau cytundeb cyfreithiol a gwaith trosglwyddo tir cysylltiedig ar gyfer dargyfeiriad/addasiadau. Bydd angen i unrhyw gytundebau gael eu hategu gan sicrwydd yn unol â'n polisi ar gyfer gofynion diogelwch. | Ar gost |

# 7. Cysylltiadau Newydd – Dŵr

Mae'r taliadau'n daladwy gan yr endid/unigolyn (unigolion) sy'n gofyn am y cysylltiad ac fel arfer maent yn ddyledus cyn i'r cysylltiad gael ei wneud. Mae'n rhaid i bob eiddo gael cysylltiad ar wahân. Dylid gosod mesurydd ym mhob cysylltiad newydd.

Fodd bynnag, os oes system Taenellwr Tân Domestig wedi'i osod yn yr eiddo o dan Fesurau Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, ni chaiff tâl ei godi am ddŵr a ddefnyddiwyd at ddibenion atal tân.

Codir TAW ar bob taliad ar gyfer cysylltiad newydd ar y gyfradd safonol, oni bai y cânt eu rhoi yn ystod y gwaith o godi adeilad sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd sero neu gyfradd TAW ostyngol (5%) yn unol â chanllawiau CThEM ar Adeiladau ac Adeiladwaith (Hysbysiad TAW 708). Er enghraifft, bydd adeiladu annedd newydd yn gymwys ar gyfer cyfradd sero o TAW; gall cyfradd TAW ostyngol (5%) fod yn gymwys ar gyfer eiddo penodol sy'n cael ei adnewyddu neu ei addasu at ddibenion preswyl. Mae'r holl daliadau cysylltu yn daladwy ymlaen llaw.

Codir TAW ar bob taliad ar gyfer cysylltiad newydd Hunanosod.

Maint safonol cysylltiad y Cwmni ag eiddo preswyl neu fasnachol yw diamedr allanol o 25mm neu, lle mae angen system taenellwr tân domestig â chyflenwad uniongyrchol ar y cwsmer, y diamedr allanol yw 32mm.

Mae angen talu blaendal nad yw'n ad-daladwy o £76.00 ynghyd â TAW ar y gyfradd safonol fesul cais. Caiff y blaendal hwn, nad yw'n ad-daladwy, ei ddidynnu o'r tâl sy'n gymwys ar gyfer cysylltiad newydd yn ddiweddarach.

Mae dyfynbrisiau yn ddilys am 6 mis – os na chaiff y dyfynbris ei dderbyn o fewn y cyfnod hwn, bydd angen gwneud cais newydd gyda blaendal nad yw'n ad-daladwy o £76.00 ynghyd â TAW ar y gyfradd safonol.

Yr endid/unigolyn(unigolion) sy'n gofyn am gysylltiad newydd fydd yn gyfrifol am unrhyw daliadau gwasanaeth o'r dyddiad cysylltu / gosod mesurydd a bydd yn parhau i fod yn gyfrifol nes y caiff Dŵr Cymru ei hysbysu'n wahanol. Felly, mae angen gwybodaeth arnom o ran newidiadau mewn cyfrifoldeb yn brydlon gan gynnwys dyddiadau, darlleniadau mesurydd a manylion yr endid/unigolyn(unigolion) sy'n dod yn gyfrifol am y taliadau gwasanaeth er mwyn ein galluogi ni i filio'n gywir. Yn unol â Deddf Diwydiant Dŵr 1991 Adran 144 (3) rydym yn cadw ein hawl ond i ymrwymo i'r newid o'r dyddiad y cawsom y wybodaeth, ac nid yn ôl-weithredol. Byddem felly'n annog eich sefydliad i'n hysbysu'n brydlon (h.y. o fewn 14 diwrnod fan bellaf) am unrhyw newidiadau, er mwyn i chi roi'r gorau i'ch cyfrifoldeb dros daliadau gwasanaeth ar yr amser cywir.

Ar gyfer cysylltiadau dros 63mm, bydd angen cais a blaendal dylunio ar wahân er mwyn talu'r costau gweinyddu a dylunio yr awn iddynt.

Pan wneir gwaith na chodir tâl sylfaenol ar ei gyfer, byddwn yn rhoi pris i chi.

**Hysbysiad Pwysig:**

Caiff Taliadau Trwydded Agor Ffordd, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004, eu hychwanegu at y taliadau cysylltiadau newydd pan gânt eu cyflwyno yn ardal weithredu Dŵr Cymru.

## Mae cysylltiad safonol (25mm) yn cynnwys hyd at y 2 fetr cyntaf o bibell, cyflenwi a gosod mesurydd a 30 diwrnod o ddefnydd dŵr cyn gosod mesurydd

| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
|---|---|---|
| Dim angen cloddio nac adfer | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad. | 327.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir diwyneb | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu gro. | 435.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (llwybr troed) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen. | 814.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (is-ffordd) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen. | 1,031.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (prif ffordd neu pan fo angen rheoli traffig) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer asffalt a roliwyd yn boeth, rheoli traffig os bydd angen. | 1,471.00 |
| Ychwanegol ar gyfer gosodiad ar dir halogedig | Tâl ychwanegol ar gyfer darparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig. | 55.00 |

Lle y caiff mesurau rheoli traffig eu cynnwys fel rhan o dâl cysylltiad newydd, mae hyn yn cynnwys goleuadau traffig hyd at dair ffordd. Lle y bydd angen mwy o fesurau rheoli traffig, caiff y tâl ychwanegol ei godi ar sail 'pris ar gais' a bydd yn seiliedig ar gost wirioneddol y mesurau rheoli traffig ychwanegol.

## Mae cysylltiad taenellu domestig cyfunol i ddiffodd tân (32mm) yn cynnwys hyd at y 2 fetr cyntaf o bibell, cyflenwi a gosod mesurydd

| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
|---|---|---|
| Dim angen cloddio nac adfer | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad. | 551.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir diwyneb | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu gro. | 797.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (llwybr troed) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen. | 1,143.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (is-ffordd) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen. | 1,350.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (prif ffordd neu pan fo angen rheoli traffig) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer asffalt a roliwyd yn boeth, rheoli traffig os bydd angen. | 1,906.00 |
| Ychwanegol ar gyfer gosodiad ar dir halogedig | Tâl ychwanegol ar gyfer darparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig. | 42.00 |

Lle y caiff mesurau rheoli traffig eu cynnwys fel rhan o dâl cysylltiad newydd, mae hyn yn cynnwys goleuadau traffig hyd at dair ffordd. Lle y bydd angen mwy o fesurau rheoli traffig, caiff y tâl ychwanegol ei godi ar sail 'pris ar gais' a bydd yn seiliedig ar gost wirioneddol y mesurau rheoli traffig ychwanegol.

## Mae cysylltiad safonol (32mm) yn cynnwys hyd at y 2 fetr cyntaf o bibell, cyflenwi a gosod mesurydd

| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
|---|---|---|
| Dim angen cloddio nac adfer | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad. | 302.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir diwyneb | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu gro. | 409.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (llwybr troed) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen. | 788.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (is-ffordd) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen. | 1,006.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (prif ffordd neu pan fo angen rheoli traffig) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer asffalt a roliwyd yn boeth, rheoli traffig os bydd angen. | 1,446.00 |
| Ychwanegol ar gyfer gosodiad ar dir halogedig | Tâl ychwanegol ar gyfer darparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig. | 57.00 |

## Mae cysylltiad safonol (Pibellau Cyflenwi Cyffredin) yn cynnwys hyd at y 2 fetr cyntaf o bibell

| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
|---|---|---|
| Dim angen cloddio nac adfer | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad. | 284.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir diwyneb | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu gro. | 505.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (llwybr troed) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen. | 785.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (is-ffordd) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen. | 1,122.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (prif ffordd neu pan fo angen rheoli traffig) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer asffalt a roliwyd yn boeth, rheoli traffig os bydd angen. | 1,639.00 |
| Ychwanegol ar gyfer gosodiad ar dir halogedig | Tâl ychwanegol ar gyfer darparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig. | 55.00 |

## Mae cysylltiad maniffold (ar gyfer rhwng 4 a 6 cysylltiad allanol) — ar gyfer cysylltiadau 25mm yn unig — yn cynnwys hyd at y 2 fetr cyntaf o bibell, cyflenwi a gosod mesurydd a 30 diwrnod o ddefnydd dŵr cyn gosod mesurydd

| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
|---|---|---|
| Dim angen cloddio nac adfer | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad. | 1,339.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir diwyneb | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu gro. | 1,627.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (llwybr troed) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen. | 1,869.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (is-ffordd) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen. | 2,555.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (prif ffordd neu pan fo angen rheoli traffig) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer asffalt a roliwyd yn boeth, rheoli traffig os bydd angen. | 2,687.00 |
| Ychwanegol ar gyfer gosodiad ar dir halogedig | Tâl ychwanegol ar gyfer darparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig. | 319.00 |

## Mae cysylltiad cangen mesuredig allanol (dros 32mm a hyd at a chan gynnwys 63mm) yn cynnwys hyd at y 2 fetr cyntaf o bibell a chyflenwi a gosod mesurydd

| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
|---|---|---|
| Dim angen cloddio nac adfer | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad. | 1,118.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir diwyneb | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu gro. | 1,369.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (llwybr troed) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen. | 1,706.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (is-ffordd) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen. | 2,124.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (prif ffordd neu pan fo angen rheoli traffig) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer asffalt a roliwyd yn boeth, rheoli traffig os bydd angen. | 2,172.00 |
| Ychwanegol ar gyfer gosodiad ar dir halogedig | Tâl ychwanegol ar gyfer darparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig. | 274.00 |

## Mae cysylltiad cangen â mesurydd mewnol (dros 32mm a hyd at a chan gynnwys 63mm) yn cynnwys hyd at y 2 fetr cyntaf o bibell a chyflenwi a gosod mesurydd – Cyfeiriwch at adran 'Darparu mesurydd' am gostau gosod mesurydd unigol

| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
|---|---|---|
| Dim angen cloddio nac adfer | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad. | 716.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir diwyneb | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu gro. | 868.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (llwybr troed) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen. | 1,169.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (is-ffordd) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen. | 1,386.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir arwyneb (prif ffordd neu pan fo angen rheoli traffig) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer asffalt a roliwyd yn boeth, rheoli traffig os bydd angen. | 1,826.00 |
| Ychwanegol ar gyfer gosodiad ar dir halogedig | Tâl ychwanegol ar gyfer darparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig. | 111.00 |

## Cyflenwi a gosod pob metr ychwanegol (neu ran ohono) ar gyfer y math o arwyneb sydd ei angen

| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
|---|---|---|
| Dim angen cloddio nac adfer | Cyflenwi a gosod hyd at 1 metr o bibell | 14.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer tir diwyneb | Cyflenwi a gosod hyd at 1 metr o bibell | 40.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer (llwybr troed) | Cyflenwi a gosod hyd at 1 metr o bibell | 130.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer (is-ffordd) | Cyflenwi a gosod hyd at 1 metr o bibell | 200.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac yn adfer (prif ffordd neu pan fo angen rheoli traffig) | Cyflenwi a gosod hyd at 1 metr o bibell | 274.00 |
| Ychwanegol ar gyfer gosodiad ar dir halogedig | Tâl ychwanegol ar gyfer darparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig (fesul pob metr ychwanegol) | Price on application |

## Cyflenwi mesurydd - hyd at a chan gynnwys mesurydd 30mm

| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
|---|---|---|
| Darparu mesurydd – hunanosod eiddo amlfeddiannaeth | Darparu mesurydd, cynnal archwiliad o'r gwasanaeth, nodi manylion y cwsmer | 19.00 |
| Darparu mesurydd ar gyfer eiddo amlfeddiannaeth | Darparu a gosod mesurydd, cynnal archwiliad o'r gwasanaeth, nodi manylion y cwsmer | 123.00 |

## Taliadau eraill os ydynt yn gymwys

| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
|---|---|---|
| Mynediad i Dir | Cael cymeradwyaeth(au) ar gyfer mynediad i dir, ffioedd cysylltiedig a thaliadau iawndal. | Pris ar gais |
| Cau'r Ffordd | Cael cymeradwyaethau cau'r ffordd, arwyddion ychwanegol a rheoli traffig. | Pris ar gais |
| Ymweliad aflwyddiannus (uchafswm tâl) | | 183.00 |
| Archwiliad Ansawdd Cysylltiad Newydd | Ymweliad cyntaf | Dim tâl |
| Archwiliad Ansawdd Cysylltiad Newydd | Cost fesul ymweliad ychwanegol | 36.00 |
| Archwiliad aflwyddiannus (uchafswm tâl) | | 37.00 |
| Gwaith adfer | | Pris ar gais |
| Taliadau trwydded agor ffordd a chostau cysylltiedig | | Pris ar gais |
| Mesurau rheoli traffig ychwanegol | Darparu mesurau rheoli traffig ychwanegol y tu hwnt i oleuadau traffig tair ffordd | Pris ar gais |

## Taliadau Hunanosod

| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
|---|---|---|
| Cytundeb Cyfreithiol | Paratoi cytundeb cyfreithiol. | 65.00 |
| Cais man cysylltu | Cadarnhau ymarferoldeb cyflenwi'r datblygiad arfaethedig. | 126.00 |
| Cysylltiad Safonol (25mm) – cysylltiad cyntaf ar safle | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, cyflenwi a gosod mesurydd a 30 diwrnod o ddefnydd dŵr cyn gosod mesurydd. | 120.00 |
| Cysylltiad Safonol (25mm) – cysylltiad cyntaf ar safle – SLO yn gosod y mesurydd | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod. | 52.00 |
| Cysylltiad Safonol (25mm) – ail gysylltiad a chysylltiadau dilynol ar safle | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, cyflenwi a gosod mesurydd a 30 diwrnod o ddefnydd dŵr cyn gosod mesurydd. | 93.00 |
| Cysylltiad Safonol (25mm) – ail gysylltiad a chysylltiadau dilynol ar safle – SLO yn gosod y mesurydd | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod. | 26.00 |
| Taenellwr Tân Domestig (32mm) – cysylltiad cyntaf ar safle | Ar gyfer mesuryddion deallus 32mm, caiff y blwch ffin a'r mesurydd eu gosod fel un uned. Ni allwn gynnig tâl ar wahân i Dŵr Cymru osod y mesurydd. Os bydd y datblygwr am i Dŵr Cymru ymgymryd â'r gwaith hwn, yna bydd y Gyfradd Cysylltiad Newydd perthnasol yn gymwys. | Dd/G |
| Taenellwr Tân Domestig (32mm) – cysylltiad cyntaf ar safle – SLO yn gosod y mesurydd | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod. | 310.00 |
| Taenellwr Tân Domestig (32mm) – ail gysylltiad a chysylltiadau dilynol ar safle | Ar gyfer mesuryddion deallus 32mm, caiff y blwch ffin a'r mesurydd eu gosod fel un uned. Ni allwn gynnig tâl ar wahân i Dŵr Cymru osod y mesurydd. Os bydd y datblygwr am i Dŵr Cymru ymgymryd â'r gwaith hwn, yna bydd y Gyfradd Cysylltiad Newydd perthnasol yn gymwys. | Dd/G |

| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
|---|---|---|
| Taenellwr Tân Domestig (32mm) – ail gysylltiad a chysylltiadau dilynol ar safle – SLO yn gosod y mesurydd | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod. | 284.00 |
| Cysylltiad Safonol (32mm) – cysylltiad cyntaf ar safle | Ar gyfer mesuryddion deallus 32mm, caiff y blwch ffin a'r mesurydd eu gosod fel un uned. Ni allwn gynnig tâl ar wahân i Dŵr Cymru osod y mesurydd. Os bydd y datblygwr am i Dŵr Cymru ymgymryd â'r gwaith hwn, yna bydd y Gyfradd Cysylltiad Newydd perthnasol yn gymwys. | Dd/G |
| Cysylltiad Safonol (32mm) – cysylltiad cyntaf ar safle – SLO yn gosod y mesurydd | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod. | 52.00 |
| Cysylltiad Safonol (32mm) – ail gysylltiad a chysylltiadau dilynol ar safle | Ar gyfer mesuryddion deallus 32mm, caiff y blwch ffin a'r mesurydd eu gosod fel un uned. Ni allwn gynnig tâl ar wahân i Dŵr Cymru osod y mesurydd. Os bydd y datblygwr am i Dŵr Cymru ymgymryd â'r gwaith hwn, yna bydd y Gyfradd Cysylltiad Newydd perthnasol yn gymwys. | Dd/G |
| Cysylltiad Safonol (32mm) – ail gysylltiad a chysylltiadau dilynol ar safle – SLO yn gosod y mesurydd | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod. | 26.00 |

## Taliadau Hunanosod

| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
|---|---|---|
| Cysylltiad Maniffold (ar gyfer cysylltiadau 25mm yn unig) – cysylltiad cyntaf ar safle | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, cyflenwi a gosod mesurydd a 30 diwrnod o ddefnydd dŵr cyn gosod mesurydd. | 224.00 |
| Cysylltiad Maniffold (ar gyfer cysylltiadau 25mm yn unig) – cysylltiad cyntaf ar safle – SLO yn gosod y mesurydd | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod. | 52.00 |
| Cysylltiad Maniffold (ar gyfer cysylltiadau 25mm yn unig) – ail gysylltiad a chysylltiadau dilynol | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, cyflenwi a gosod mesurydd a 30 diwrnod o ddefnydd dŵr cyn gosod mesurydd. | 198.00 |
| Cysylltiad Maniffold (ar gyfer cysylltiadau 25mm yn unig) – ail gysylltiad a chysylltiadau dilynol – SLO yn gosod y mesurydd | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod. | 26.00 |
| Cysylltiad Cangen (dros 32mm a hyd at a chan gynnwys 63mm) – cysylltiad cyntaf ar safle – Mesurydd allanol | Oherwydd dyluniad y cysylltiadau hyn, caiff y blwch ffin a'r mesurydd eu gosod fel un uned. Ni allwn gynnig tâl ar wahân i Dŵr Cymru osod y mesurydd. Os bydd y datblygwr am i Dŵr Cymru ymgymryd â'r gwaith hwn, yna bydd y Gyfradd Cysylltiad Newydd perthnasol yn gymwys. | Dd/G |
| Cysylltiad Cangen (dros 32mm a hyd at a chan gynnwys 63mm) – cysylltiad cyntaf ar safle – SLO yn gosod y mesurydd – Mesurydd allanol | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod. | 167.00 |
| Cysylltiad Cangen (dros 32mm a hyd at a chan gynnwys 63mm) – ail gysylltiad a chysylltiadau dilynol – Mesurydd allanol | Oherwydd dyluniad y cysylltiadau hyn, caiff y blwch ffin a'r mesurydd eu gosod fel un uned. Ni allwn gynnig tâl ar wahân i Dŵr Cymru osod y mesurydd. Os bydd y datblygwr am i Dŵr Cymru ymgymryd â'r gwaith hwn, yna bydd y Gyfradd Cysylltiad Newydd perthnasol yn gymwys. | Dd/G |
| Cysylltiad Cangen (dros 32mm a hyd at a chan gynnwys 63mm) – ail gysylltiad a chysylltiadau dilynol – SLO yn gosod y mesurydd – Mesurydd allanol | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn casglu'r mesurydd o storfa Dŵr Cymru ac yn cyflawni'r gwaith gosod. | 141.00 |

| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
|---|---|---|
| Cysylltiad Cangen (dros 32mm a hyd at a chan gynnwys 63mm) – cysylltiad cyntaf ar safle – Mesurydd mewnol | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. | 37.00 |
| Cysylltiad Cangen (dros 32mm a hyd at a chan gynnwys 63mm) – cysylltiad cyntaf ar safle – SLO yn gosod y mesurydd – Mesurydd mewnol | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn gosod y mesurydd. | 11.00 |
| Cysylltiad Cangen (dros 32mm a hyd at a chan gynnwys 63mm) – ail gysylltiad a chysylltiadau dilynol – Mesurydd mewnol | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. | 37.00 |
| Cysylltiad Cangen (dros 32mm a hyd at a chan gynnwys 63mm) – ail gysylltiad a chysylltiadau dilynol – SLO yn gosod y mesurydd – Mesurydd mewnol | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad. SLO yn gosod y mesurydd. | 11.00 |

# 8. Taliadau seilwaith

Mae'r taliadau seilwaith ar gyfer cyflenwad at ddibenion domestig yn daladwy o dan Adran 146 o'r Ddeddf ac Amod Trwydded C (fel y'i haddaswyd) o Offeryn Penodi'r Cwmni.

Mae cysylltiadau newydd yn cynyddu'r pwysau ar y systemau dŵr a charthffosiaeth a gall hyn olygu y bydd angen gwneud gwaith arnynt yn y pen draw. Felly, yn ogystal ag unrhyw dâl cysylltiad dŵr neu garthffosiaeth a/neu dâl archebu, codir tâl seilwaith hefyd am gysylltiad dŵr newydd a thâl seilwaith am gysylltiad carthffosiaeth newydd.

Gall y taliadau hyn fod yn daladwy hefyd pan fydd safle wedi'i ailddatblygu a bod yr ailddatblygiad hwnnw yn golygu bod galw'r safle yn fwy nag yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Fel arfer caiff y taliadau hyn eu bilio ar yr un pryd â'r tâl a godir am y cysylltiad dŵr. Mae taliadau seilwaith y tu allan i gwmpas TAW.

**Codir y taliadau isod ar gyfer eiddo preswyl safonol:**

| Dŵr | Carthffosiaeth |
|---|---|
| £398.00 | £398.00 |

Caiff taliadau ar gyfer datblygiadau fflatiau a wasanaethir gan swmp gyflenwadau mesuredig ac ar gyfer endidau dibreswyl eu cyfrif drwy luosi'r tâl safonol uchod gyda'r lluosydd perthnasol. Caiff y lluosydd perthnasol ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm yr unedau llwytho ar gyfer pob ffitiad dŵr yn yr eiddo a gyflenwir a'i rannu â 24. Y rhif hwnnw neu 1 (pa un bynnag yw'r uchaf) yw'r lluosydd perthnasol.

Y tâl ar gyfer datblygiadau fflatiau gyda mesurydd unigol fesul fflat fydd 1 tâl safonol fesul fflat.

| Math o eiddo | Math o ddefnydd | Taliadau ar gyfer Cysylltiadau Newydd (Lluosydd Perthnasol) | Credyd sydd ar gael os yn Wag < 5 Mlynedd (Lluosydd Perthnasol) |
|---|---|---|---|
| Preswyl | Domestig | 1 | 1 |
| Dibreswyl | Domestig | Yn seiliedig ar unedau llwytho | Yn seiliedig ar ddefnydd blaenorol |
| Dibreswyl | Masnachol | Yn seiliedig ar ddefnydd arfaethedig ond cyfeiriwch at y tabl lluosydd drosodd fel canllaw i'r swm lleiaf | Yn seiliedig ar ddefnydd blaenorol |

# 9. Canllaw i luosyddion perthnasol

Pennir taliadau am gyflenwadau dibreswyl gyda defnydd dibreswyl drwy gytundeb. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ni fydd y lluosydd perthnasol ar gyfer pob maint o gysylltiad (a fydd yn seiliedig ar ddiamedr mewnol y bibell a ddefnyddir i ddarparu'r cysylltiad) yn llai na'r canlynol fel rheol:

| Diamedr Allanol (Pibell Blastig) | Diamedr Mewnol | Lluosydd Perthnasol |
|---|---|---|
| | 15mm | 1 |
| 25mm | 22mm | 1 |
| 32mm | 25mm | 4 |
| 40mm | 30mm | 6 |
| 50mm | 40mm | 9 |
| 63mm | 50mm | 16 |
| 80mm | 65mm | 25 |
| 90mm | 80mm | 36 |
| 125mm | 100mm | 64 |
| 180mm | 150mm | 144 |
| 250mm | 200mm | 256 |

# 10. Unedau llwytho

Pennir unedau llwytho drwy gyfeirio at y tabl a'r nodiadau canlynol.

| Ffitiad Dŵr | Uned Lwytho |
|---|---|
| Seston Fflysio Toiled | 2 |
| Basn golchi mewn tŷ | 1.5 |
| Basn golchi mewn man arall | 3 |
| Baddon gyda thapiau maint 20mm | 10 |
| Baddon gyda thapiau sy'n fwy nag 20mm | 22 |
| Cawod | 3 |
| Sinc gyda thapiau 15mm | 3 |
| Sinc gyda thapiau sy'n fwy na 15mm | 5 |
| Tap chwistrellu | 0.5 |
| Bidet | 1.5 |
| Offer domestig (yn amodol ar isafswm o chwe uned lwytho fesul tŷ) | 3 |
| Offer cymunedol neu fasnachol | 10 |
| Unrhyw ffitiad dŵr neu allfa arall (gan gynnwys tap ond nid troethfa na meddalydd dŵr) | 3 |

**Nodiadau:** 1. Mae cyfeiriadau at unrhyw ffitiad yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw waith plymio, allfa, lle pwrpasol neu gynllunio neu ddarpariaeth arall ar gyfer y ffitiad hwnnw. 2. Mae baddon yn cynnwys baddon trobwll a Jacwsi. 3. Mae offer domestig yn golygu offer (gan gynnwys peiriant golchi llestri, peiriant golchi dillad ac uned gwaredu gwastraff) mewn tŷ. 4. Mae offer cymunedol neu fasnachol yn golygu offer (gan gynnwys peiriant golchi llestri, peiriant golchi dillad ac uned gwaredu gwastraff) mewn man arall ar wahân i dŷ (gan gynnwys cyfleusterau cymunedol).

Pan ailddatblygir safle a bod cysylltiadau yn bodoli ar y safle hwnnw o fewn pum mlynedd cyn gwneud cysylltiad parhaol newydd cyntaf y datblygiad newydd, efallai y gostyngir cyfanswm y taliadau seilwaith dŵr ar gyfer y safle.

Caiff nifer yr eiddo domestig a oedd yn bodoli ac a oedd â chysylltiad dŵr ar y safle yn ystod y pum mlynedd, neu yn achos eiddo dibreswyl nifer y credydau sy'n ddyledus yn seiliedig ar y defnydd o ddŵr yn y datblygiad blaenorol yn ystod y pum mlynedd, ei ddidynnu o gyfanswm y lluosyddion perthnasol ar gyfer y cysylltiadau sy'n deillio o'r datblygiad newydd.

Bydd lluosi'r cyfanswm newydd â'r tâl safonol yn rhoi cyfanswm y tâl seilwaith dŵr ar gyfer y safle. Gwneir gostyngiad tebyg o ran cysylltiadau carthffosiaeth sydd eisoes yn gwasanaethu'r safle.

Os datgysylltir cyflenwad o fewn dwy flynedd i'w drefnu ac ni wneir unrhyw gysylltiadau pellach ar y safle, yna ad-delir 80% o'r swm a dalwyd. Gellir ychwanegu llog, sy'n daladwy i'r Cwmni, ar y gyfradd gyfredol at unrhyw symiau sy'n ddyledus ar ôl i'r cysylltiad gael ei wneud.

Os bydd unrhyw anghydfod rhwng y Cwmni a'r unigolyn y codir unrhyw dâl seilwaith arno, gellir cyfeirio'r mater at yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) yn y cyfeiriad a nodir ar dudalen 20.

## Lluosydd perthnasol ar gyfer cysylltiadau at ddibenion annomestig

Mae'r categori yn berthnasol i bob cysylltiad sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol at ddibenion annomestig (gall cysylltiadau ar gyfer safleoedd adeiladu, cafnau caeau a ffatrïoedd gyda gwasanaethau at ddibenion gweithgynhyrchu fod yn y categori hwn).

Pennir y lluosydd perthnasol ar gyfer cysylltiadau yn seiliedig ar alw'r cysylltiad arfaethedig, gydag isafswm tâl yn seiliedig ar ddiamedr y cysylltiadau fel y nodwyd yn y 'Canllaw i luosyddion perthnasol' a ddangosir uchod. Os bydd y gost ar gyfer darparu'r seilwaith angenrheidiol ddwywaith yn fwy na'r taliadau seilwaith a gyfrifir gan ddefnyddio'r tabl 'Canllaw i luosyddion perthnasol', caiff y taliad ei bennu drwy gytundeb arbennig yn seiliedig ar gost wirioneddol darparu'r seilwaith.

Ar gyfer cysylltiadau sy'n fwy na 200mm, pennir tâl y seilwaith drwy gytundeb arbennig ac ni fydd yn llai na'r tâl ar gyfer cysylltiad 200mm.